COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE FOR BUSINESS DYDD IAU, 17 MEDI 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | SK Dendy | DK Edwards |
| DRW Lewis | JE Lewis | JC Spanswick | RME Stirman |
| MC Voisey | KJ Watts | CA Webster | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, RM Granville, MJ Kearn a/ac JC Radcliffe

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Claire Hamm | Arweinydd Tim Cadwraeth a Dilynio |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

403. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

404. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 20 Awst yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

405. SIARADWYR CYHOEDDUS

Roedd y siaradwyr cyhoeddus canlynol yn bresennol i draethu ar Gais Cynllunio P/19/915/RES (Eitem agenda 7) :

| Gwrthwynebydd | Ymgeisydd |
|---|---|
| C Evans | S Gray, Llanmoor Homes |

406. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem brys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried newidiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, i ystyried cynrychiolaethau ac adolygiadau hwyr sydd angen eu cynnwys.

407. ARWEINIAD PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Bod crynodeb yr Arweiniad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel a nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn cael ei nodi

408. P/19/915/RES – TIR I'R GORLLEWIN O HEOL MAESTEG, TONDU, CF32 9DF

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau sy'n gynwysedig yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Cynnig

Materion a gedwir yn ôl yn P/16/366/OUT am 405 o unedau preswyl, ffordd gyswllt a maes parcio dros dro.

409. P/20/285/RLX – TIR AR YR HEN FAES CHWARAE, HEOL FFYNNON, CF31 3XU

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau sy'n gynwysedig yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Cynnig

Amrywio amod 1 penderfyniad apêl A/18/3198111 (yn ymwneud â P/17/891/FUL) i newid y cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys stoc amwynder mwy.

410. P/20/159/BCB - PLOT 50A HEOL VILLAGE FARM, STAD DDIWYDIANNOL VILLAGE FARM, Y PÎL, CF33 6BN

RESOLVED: Bod caniatâd tybiedig, at ddibenion Rheoliad 4 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 1992, yn cael ei roi i'r cais uchod, yn ddarostyngedig i'r Amodau sy'n gynwysedig yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cynnig

Codi 8 uned ddiwydiannol newydd mewn bloc unigol yn cynnwys 3 uned fawr a 5 uned fechan gyda pharcio cysylltiedig i gerbydau a beiciau.

411. P/19/674/RLX - TIR GER PARC CRESCENT, STAD DDIWYDIANNOL WATERTON (STOREWITHUS), CF32 0EW

PENDERFYNWYD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau sy'n gynwysedig yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau

Cynnig

Cadw'r datblygiad fel y'i gweithredir yn unol â P/16/379/FUL (a ddiweddarwyd gan P/16/836/NMA, P/16/850/DOC a P/17/343/DOC) a P/16/833/FUL (a ddiweddarwyd gan P/17/311/DOC); amrywio amod 1 o P/16/379/FUL ac amod 2 o P/16/833/FUL i

ganiatáu cyfleusterau golchi; amrywio amod 3 o P/16/833/FUL i gynnwys bwnd pridd ar hyd ffiniau dwyreiniol a deheuol y safle.

412. APELIADAU

PENDERFYNWYD:

1. Bod yr Apeliadau a dderbyniwyd fel y'u rhestrwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn cael eu nodi.

2. Bod y Penderfyniadau Apêl canlynol, sy'n gynwysedig yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'u penderfynu gan yr Archwilwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, yn cael eu nodi :-

(a) A/20/3245529 (1886) – Tri o dai annedd pâr 3 ystafell wely (cyfanswm o 6 aneddiad) gyda pharcio cysylltiedig i'r gogledd o 12 Heol Pen-y-bont, Pontycymer – **Gwrthodwyd yr Apêl**.
(b) A/20/3246041 (1887) – Codi 41 o aneddiadau preswyl fforddiadwy gyda pharcio cysylltiedig i geir ar y safle, mynediad a'r gwaith cysylltiedig – Tir i'r de o Glos Wyndham, Stad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr – **Gwrthodwyd yr Apêl**
**(c)** A/20/3246041 (1891) - Cais amlinellol am hyd at 9 anheddle a'r gwaith cysylltiedig, Tir oddi ar Heol Tondu, i'r gogledd o Pascoes Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr. - **Gwrthodwyd yr Apêl (a gwrthodwyd y cais am gostau.)**
(d) D/20/3253435 (1893) – Estyniad llawr cyntaf uwchben Rhandy ochr presennol, 7 Park Avenue, Porthcawl – **Gwrthodwyd yr Apêl**.

413. DIWYGIADAU DROS DRO I WEITHDREFN YMWELIADAU SAFLE'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, gyda'r bwriad o gynghori Aelodau o'r rheidrwydd i adolygu dros dro Cod Ymarfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu gyda golwg ar ymweliadau'r Pwyllgor â safleoedd, yng ngoleuni cyfyngiadau cyfredol Covid-19.

Cafwyd cyngor gan y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, i'r Cod Ymarfer Cynllunio presennol gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Ebrill 2017 a bod copi o'r ddogfen hon ynghlwm ag Atodiad 1 o'r adroddiad. Mae Adran 9 yn cyfeirio at ymweliadau safle gan y Pwyllgor ac yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ymgymryd ag ymweliad o'r safle a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod ymweliad. Gall ymweliadau safle gan y Pwyllgor fod un ai ar ffurf Panel, h.y. Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrydydd Aelod neu fel ymweliad llawn â safle yn cynnwys holl aeodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Gydag unrhyw un o'r ddwy sefyllfa, mae'r Aelod Ward leol, Cynrychiolydd Cyngor Tref/Cymuned ynghyd â gwrthwynebydd a wnaeth gais i siarad, yr ymgeisydd/asiant a'r Swyddogion perthnasol fel arfer yn mynychu.

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan y gall ymweliadau safle'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fod yn gostus ac achosi oedi. Gan hynny, mae hi'n bwysig nad ydyn nhw'n cael eu cynnal ond pa fo angen (fel arfer ar y diwrnod cyn y Pwyllgor) a lle bo gwrthwynebiad Cynllunio perthnasol. Nid cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau ydy'r rhain, na 'chwaith yn gyfarfodydd cyhoeddus ond, yn bennaf, yn ymarferiadau casglu gwybodaeth a gynhelir er budd yr Aelodau, lle gall fod datblygiad arfaethedig yn anodd ei ddychmygu o'r cynlluniau a'r deunydd cymorth. Mae'n bosib y bydden nhw'n angenrheidiol o ran rhoi

ystyriaeth gofalus i'r gydberthynas ag eiddo cyfagos neu'r cyffiniau cyffredinol y cynnig oherwydd ei faint neu'r effaith ar Adeilad Cofrestredig neu Ardal Gadwraeth, er enghraifft.

Aeth ymlaen dan ddatgan fod yn rhaid i gais am ymweliad safle a wneir gan Aelod Ward leol mewn ymateb i ymgynghori ag e/hi ar y datblygiad arfaethedig, gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig neu yn electronig o fewn 21 diwrnod i hysbysiad y cais a bod gofyn iddo ddatgan yn glir y rhesymau cynllunio perthnasol am yr ymweliad.

Fe deimlodd y dylid nodi y bydd Swyddogion yn parhau i ymweld â safleoedd lle be'n ddiogel i wneud hynny a cheisio darparu cymaint o wybodaeth â phosib, gan gynnwys ffotograffau, mapiau, delweddau o'r awyr a deunydd arall perthnasol megis technoleg 'gwylio stryd', i gynorthwyo aelodau i wneud penderfyniadau ar geisiadau Cynllunio.

Yn wyneb y rheolau presennol ynghylch ymbellhau cymdeithasol, fe fyddai ymweliadau Pwyllgor â safleoedd yn eithriadol o anodd ei gynnal yn ddiogel o dan y gweithdrefnau presennol. Byddai hyn yn bennaf oherwydd y niferoedd o bobl a fyddai'n mynychu, gan arwain wedyn at fethu cadw at bellter cymdeithasol diogel, yn ogystal â'r risg gynyddol o orgyffwrdd â phriffyrdd neu fynd i mewn i gartrefi pobl. Ni ddylai'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle heblaw dan amgylchiadau eithriadol.

Hysbysodd y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, lle y cytunir gyda'r Cadeirydd y dylid ymweld â safle, y byddai'n angenrheidiol i gyfyngu'r nifer o gyfranogwyr er mwyn cydymffurfio â rheolau ymbellhau cymdeithasol ac y dylai fod ar ffurf panel neu banel estynedig yn cynnwys nifer fach ychwanegol o aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu (y gwneuthuriad a'r niferoedd i'w penderfynu). Bydd amodau yn amrywio o safle i safle gyda rhai ardaloedd yn caniatáu mwy o fynychwyr. Mewn unrhyw achos, bydd gofyn cynnal asesiadau risg ar gyfer pob ymweliad. Bydd paneli estynedig yn cynnwys y panel cyffredin (Cadeirydd, Is-gadeirydd a thrydydd Aelod), yn ogystal â hyd at dri aelod ychwanegol, i'w tynnu o garfan o wirfoddolwyr o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Hysbysodd y Rheolwr Grŵp – Cynllunio, er mwyn mynd i'r afael ag ymweliadau safle yn y dyfodol gan ddefnyddio panel estynedig ymweliad safle, fe ddylid ychwanegu paragraff arall fel yr amlinellwyd ym Mharagraff 5.5. o'r adroddiad hwn at Adran 9.2.1 o'r Cod Ymarfer.

Ystyriwyd y bydd y cynigion a ddisgrifiwyd uchod yn ddigonol i ganiatáu rhai ymweliadau safle i ailddechrau, er ar ffurf gyfyngedig ac o dan amgylchiadau eithriadol. Dylai aelodau nodi, fodd bynnag, y gallai unrhyw newid dilynol i reoliadau neu gyngor ar Covid-19, yn genedlaethol neu'n lleol, effeithio ar y gallu i gynnal ymweliadau safle gan y Pwyllgor.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

1. Bod Aelodau yn cytuno ar y newid dros dro i'r Cod Ymarfer mewn perthynas ag ymweliadau safle gan y Pwyllgor a chytunwyd ymhellach sefydlu paneli estynedig at ddibenion ymweliadau safle lle bo angen ac awdurdodwyd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu a Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu i wneud y trefniadau angenrheidiol mewn cydweithrediad â'r Cadeirydd. Gofynnwyd i Aelodau gysylltu â'r Adran Gynllunio os oedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn bod yn rhan o baneli estynedig ymweliadau safle.

2. Y dylai'r newid dros dro fod mewn grym am gyfnod heb fod yn hwy na 12 mis o ddyddiad y penderfyniad neu pan godir cyfyngiadau Covid-19, p'un bynnag sydd gyntaf.

414. ARDAL GADWRAETH NANT-Y-MOEL CYFARWYDDYD ERTHYGL 4(2)

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr, gyda'r bwriad o ddiweddaru'r Aelodau ar benderfyniad a wnaed ar 27 Mai 2020 trwy bwerau dirprwyedig i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn Ardal Gadwraeth Nant-y-moel ar 8 Mehefin 2020.

Er gwybodaeth, fe atgoffodd Arweinydd y Tîm Cadwraeth a Dylunio yr Aelodau ar yr hyn a gytunwyd, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 16 Ionawr 2020, i lunio Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn Ardal Gadwraeth Nant-y-moel. Effaith y Cyfarwyddyd hwn oedd tynnu'n ôl yr hyn a fyddai fel arall yn hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â dymchwel ffin-waliau blaen yn yr ardal a gynhwysid yn y Cyfarwyddyd. Atgoffwyd yr Aelodau am sgôp y Cyfarwyddyd a'r eiddo a effeithir; mae manylion i'w cael yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Roedd effaith Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn ddi-oed a rheolau dros yr hyn a oedd yn flaenorol yn ddatblygiad a ganiateir felly mewn grym o 16 Ionawr 2020. Bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i ben oni bai y'i cadarnheir o fewn 6 mis.

Hysbysodd Arweinydd Tîm Cadwraeth a Dylunio, fel canlyniad uniongyrchol i gyhoeddi llythyr hysbysu Erthygl 4 yn dilyn llunio'r Gyfarwyddyd, fod pump ymateb wedi'u derbyn gan berchnogion a meddianwyr yr eiddo. Cafwyd crynodeb o gynnwys yr ymatebion hyn yn Atodiad 2 o'r adroddiad, er gwybodaeth i'r Aelodau. Derbyniwyd tri galwad ffôn yn gofyn am eglurder, yn hytrach na gwrthwynebu. Derbyniwyd dau ymateb ysgrifenedig. O'r ddau yma, roedd un wedi camddeall y llythyr ac yn gofyn am eglurder ynghylch statws Ardal Gadwraethac roedd un yn gwrthwynebu oherwydd fod gormod o gymeriad hanesyddol eisoes wedi'i symud oddi yno.

I osgoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) rhag dod i ben, roedd gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei gadarnhau erbyn 17 Mehefin 2020 ac, fel canlyniad i gyfnod clo COVID 19 a'r gohirio dilynol fu ar gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, cymerwyd penderfyniad ar 27 Mai 2020, o dan bwerau dirprwyedig brys (Cyf CMM-PRU-20-23), mewn ymgynghoriad â Swyddogion ac Aelodau, i gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 heb unrhyw newidiad. Amgaewyd copi o'r cyfarwyddyd a gadarnhawyd, arwyddwyd a seliwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Cyn gynted ag y cadarnhawyd y gyfarwyddyd, anfonwyd llythyrau i holl berchnogion / meddianwyr yr eiddo a effeithir, ynghyd â'r copi terfynol o'r daflen arweiniad a gynhyrchwyd. Fe gynigiwyd fod y fersiwn derfynol o'r daflen a gynhwysir yn Atodiad 3 yn cael ei chymeradwyo at ddibenion Rheoli Datblygu.

PENDERFYNWYD: Bod Aelodau:

1. Yn nodi fod y Gyfarwyddyd o dan Erthygl 4 (2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu cyffredinol a Ganiateir) 1995 i symud hawliau datblygu a ganiateir gan berchnogion a meddianwyr tai annedd sy'n gynwysedig o fewn Ardal Gadwraeth Nant-y-moel o dan y telerau a nodir yn Atodiad 1, wedi'i chadarnhau heb ei haddasu ar 8 Mehefin 2020.
2. Yn cymeradwyo'r daflen arweiniad yn Atodiad 3 o'r adroddiad, at ddibenion Rheoli Datblygu.

415. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00